Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Gwiriadau diogelu ar gyfer y rhai sy'n ymgymryd â gwaith ar ran Estyn

# Polisi ar ddefnyddio'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

## Chwefror 2019

## Taflen wybodaeth

| | |
|---|---|
| Am fwy o gyngor cysylltwch â: | Y Tîm Cynllunio a Defnyddio |
| Dyddiad cyhoeddi: | Awst 2017 |
| Dyddiad adolygu arfaethedig: | Awst 2020 |

**Rheoli fersiwn**

| **Fersiwn y ddogfen** | **Awdur** | **Dyddiad cyhoeddi** | **Newidiadau a wnaed** |
|---|---|---|---|
| 1.0 | Dai Williams | Gorffennaf 2011 | Drafft cyntaf |
| 2.0 | Lisa Jordaan | Ionawr 2013 | Diweddaru deddfwriaeth |
| 3.0 | Lisa Jordaan | Mehefin 2016 | Ailfformatio ac ailenwi. |
| 4.0 | Dai Williams | Awst 2017 | Adolygu ar ôl cael cyngor cyfreithiol |
| 5.0 | Claire Ait-Hammi | Hydref 2018 | Diweddariad gweithdrefnol a chyhoeddi tystysgrifau'r GDG |
| 6.0 | Laurie Hinks | Ionawr 2019 | Newidiadau i'r gofynion am wiriadau'r GDG i fynychu hyfforddiant cychwynnol |
| 7.0 | Laurie Hinks | Mehefin 2019 | Diweddariad ar gludadwyedd tystysgrifau'r GDG ac ailfformatio |
| 8.0 | Laurie Hinks | Awst 2019 | Adolygu 4.8 |

Mae rheolwyr ac Undebau Llafur Estyn wedi cytuno ar y polisi hwn a'i weithdrefnau cysylltiedig.

Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynghylch y polisi hwn at:

Y Tîm Cynllunio a Defnyddio
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at dbschecks@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**Asesiad Effaith**

Mae asesiad rhesymwaith busnes wedi’i gynnal ac mae’r polisi hwn yn cyfrannu at amcanion strategol ac egwyddorion darparu Estyn.

Yn unol ag Asesiad Effaith Cydraddoldeb Estyn 2016, cynhaliwyd asesiad effaith cydraddoldeb llawn ac ni ystyrir bod y polisi hwn yn cael effaith andwyol ar unrhyw unigolyn ar sail anabledd, rhyw a hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.

| **Cynnwys** | **Tudalen** |
|---|---|


| | | |
|---|---|---|
| **1** | Cyflwyniad | **1** |
| **2** | I bwy mae'r polisi hwn yn berthnasol? | **1** |
| **3** | Beth yw'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) a beth yw lefelau'r gwiriadau Datgelu y mae Estyn yn ymgymryd â nhw? | **1** |
| **4** | Pa mor aml y mae angen adnewyddu gwiriadau'r GDG? | |
| **5** | Cynnwys | |
| **6** | Sicrwydd a Chydymffurfiaeth | **4** |
| | **Atodiad 1 – Beth yw 'gweithgaredd a reoleiddir'?** | **5** |

## 1 Cyflwyniad

1.1 Mae gan Estyn ddyletswydd gofal i ddiogelu lles plant a grwpiau agored i niwed; wrth ymgymryd â'r cyfrifoldeb hwn, rydym yn gweithredu gofynion statudol perthnasol ac yn mabwysiadu argymhellion adroddiadau perthnasol allweddol y Llywodraeth, fel ymchwiliadau Bichard a Waterhouse. Mae'r polisi hwn yn esbonio sut mae Estyn yn ymgymryd â gwiriadau diogelu, gan ddefnyddio'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG), er mwyn helpu i bennu p'un a yw unigolion yn anaddas i ymgymryd â gweithgareddau gwaith penodol ar gyfer Estyn fel eu bod yn cael eu hatal rhag ymgymryd â gwaith o'r fath.

1.2 Mae Estyn yn ymroi i gynnal diogelwch a lles plant a grwpiau agored i niwed. Mae'n rhaid i bob unigolyn sy'n gweithio ar gyfer neu ar ran Estyn fod yn effro wrth ymgymryd â'u gwaith ac mae ganddynt ddyletswydd i adrodd am unrhyw ddatgeliadau neu bryderon sydd ganddynt. Caiff y ddyletswydd hon ei hesbonio ym 'Mholisi a Gweithdrefnau Diogelu' Estyn, sydd ar gael ar wefan Estyn www.estyn.llyw.cymru

## 2 I bwy y mae'r polisi hwn yn berthnasol

- Cyflogeion a secondeion Estyn (darpar gyflogeion a secondeion a rhai wedi'u penodi)
- Pob unigolyn sydd wedi'i hyfforddi gan Estyn a/neu sy'n arolygu ar ran Estyn

## 3 Beth yw'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) a beth yw lefelau'r gwiriadau Datgelu y mae Estyn yn ymgymryd â nhw?

3.1 Mae'r GDG yn rhoi gwybodaeth a reoleiddir am gofnodion troseddol (y cyfeirir atynt fel datgeliadau) i helpu sefydliadau i nodi ymgeiswyr a allai fod yn anaddas ar gyfer rhai mathau o waith, a gwneud penderfyniadau recriwtio diogelach, gan felly leihau'r risgiau i blant a grwpiau agored i niwed. Fe wnaeth y GDG ddisodli'r Swyddfa Cofnodion Troseddol (SCT) a'r Awdurdod Diogelu Annibynnol. Mae rhagor o wybodaeth am y GDG ar gael yma.

**Lefelau'r datgeliadau y mae Estyn yn gofyn amdanynt**

**Datgeliad sylfaenol**

3.2 Mae'r datgeliad hwn yn darparu gwybodaeth am gofnodion troseddol 'heb eu disbyddu'. Gellir gofyn am y gwiriad hwn ar gyfer unrhyw rôl a bydd yn cynnwys manylion euogfarnau yr ystyrir eu bod 'heb eu disbyddu' o dan Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr 1974. O Ionawr 2018, gall datgeliad sylfaenol gael ei gyhoeddi gan Disclosure Scotland neu'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

**Datgeliad manylach**

3.3 Mae’r datgeliad hwn yn darparu gwybodaeth am euogfarnau wedi’u disbyddu a heb eu disbyddu, rhybuddiadau, ceryddon a rhybuddion terfynol, ynghyd ag unrhyw wybodaeth ychwanegol a gynhelir yn lleol gan yr heddlu sy’n cael ei hystyried yn berthnasol i’r rôl sydd/a fydd yn cael ei chyflawni.

**Datgeliad manylach gyda gwiriadau’r rhestr waharddedig**

3.4 Mae’r datgeliad hwn yn darparu gwybodaeth am euogfarnau wedi’u disbyddu a heb eu disbyddu, rhybuddiadau, ceryddon a rhybuddion terfynol, ynghyd ag unrhyw wybodaeth ychwanegol y mae heddluoedd lleol yn ei dal, sy’n cael ei hystyried yn berthnasol i’r rôl sydd/a fydd yn cael ei chyflawni - **gan gynnwys gwiriad yn erbyn y rhestr waharddedig priodol.**

**Mathau o wiriadau sy’n berthnasol i weithgaredd**

3.5 Mae’n rhaid bod pob unigolyn sy’n ymgymryd â ‘gweithgaredd a reoleiddir’ (gweler Atodiad 1) ar ran Estyn wedi cael gwiriad manylach o dan **gategori’r gweithlu plant** o fewn y tair blynedd diwethaf.

3.6 Mae angen gwiriad Sylfaenol yn unig ar gyfer y rolau canlynol sydd y tu hwnt i weithgarwch a reoleiddir:

- Arolygwyr sy’n arolygu yn y sector Colegau Arbenigol Annibynnol
- Arolygwyr sy’n arolygu yn y sector Dysgu Oedolion yn y Gymuned (Dysgu Oedolion)
- Arolygwyr sy’n arolygu yn y sector Cymraeg i Oedolion
- Arolygwyr sy’n arolygu Gwasanaethau Addysg Llywodraeth Leol (GALl)
- Staff Gwasanaethau Corfforaethol Estyn sy’n cysgodi arolygiadau achlysurol fel rhan o’u datblygiad

**Unigolion o arolygiaethau/cyrff eraill a reoleiddir sy’n mynychu arolygiadau dan arweiniad Estyn**

3.7 Bydd Estyn yn sicrhau (trwy Femorandwm Dealltwriaeth) y bydd unrhyw unigolyn o arolygiaeth/corff arall a reoleiddir, sy’n ymuno ag arolygiad dan arweiniad Estyn, wedi cael y gwiriad perthnasol, sy’n briodol i’r ‘gweithgaredd’ arolygu hwnnw.

## 4 Pa mor aml y mae angen adnewyddu gwiriadau’r GDG?

4.1 Mae Estyn yn ystyried bod gwiriad y GDG yn **ddilys** os yw wedi’i gynnal yn ystod y cyfnod **tair blynedd** blaenorol. Bydd Estyn yn dechrau’r broses adnewyddu 33 mis ar ôl dyddiad cyhoeddi’r dystysgrif.

4.2 Ar hyn o bryd, mae Estyn yn defnyddio corff ymbarél cofrestredig annibynnol y GDG - Due Diligence Checking (DDC), i gynnal gwiriadau’r GDG. Mae DDC yn rheoli holl waith gweinyddol gwiriadau’r GDG a bydd yn dechrau’r broses adnewyddu yn awtomatig 33 mis ar ôl dyddiad cyhoeddi tystysgrif ddiweddaraf yr unigolyn.

4.3 Rydym yn hysbysu arolygwyr 3 mis cyn i’w gwiriad gan y GDG ddod i ben fod angen

iddynt adnewyddu'u statws gan y GDG. Ar yr adeg hon, byddwn yn gofyn i arolygwyr nodi'u dewis iaith ar gyfer cwblhau'r broses (Cymraeg neu Saesneg) sydd wedi'i chofnodi yn eu proffiliau arolygwyr. Bydd Due Diligence yna'n cyhoeddi'r ffurflen gais yn newis iaith yr ymgeisydd. Bydd y GDG yn rhoi gwybod i'r heddlu os bydd cais am ddatgeliad wedi dangos bod person wedi'i wahardd yn ceisio gweithio gyda phlant neu oedolion agored i niwed.

**Cludadwyedd gwiriadau'r GDG**

4.4 Mae cludadwyedd yn cyfeirio at ailddefnyddio datgeliad y GDG, a gafwyd ar gyfer swydd mewn un sefydliad, ar gyfer swydd arall mewn sefydliad gwahanol. Bydd Estyn yn derbyn tystysgrifau'r GDG ar gyfer rôl arolygwyr cymheiriaid ac ymgynghorwyr her a ddefnyddir trwy femorandwm dealltwriaeth, ar yr amod y cafwyd y dystysgrif yn ystod y tair blynedd diwethaf, mae'r math o wiriad a lefel y gwiriad yn berthnasol i'r gweithgaredd (3.5) ac fe'i cyhoeddwyd ar gyfer yr un math o weithlu, h.y. y gweithlu plant.

4.5 Er Mehefin 2013, gall unigolion danysgrifio i Wasanaeth Diweddaru'r GDG. Mae'r Gwasanaeth Diweddaru yn danysgrifiad ar-lein, sy'n galluogi ymgeiswyr i sicrhau bod eu tystysgrif safonol neu fanwl y GDG yn gyfredol ac yn galluogi cyflogwyr i wirio'r dystysgrif ar-lein. Mae'n rhaid i unigolion sy'n dymuno cofrestru ar gyfer gwasanaeth diweddaru'r GDG wneud hynny cyn pen 30 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi'r dystysgrif. I sicrhau bod y dystysgrif yn parhau'n gyfredol, rhaid adnewyddu'r cofrestriad yn flynyddol. Y gost yn Ionawr 2019 oedd £13 y flwyddyn. Mae'r gwasanaeth ar gyfer gwiriadau safonol a manwl y GDG yn unig.

4.6 Mae Gwasanaeth Diweddaru'r GDG yn galluogi tystysgrifau i fod yn gludadwy pan fydd unigolyn yn newid cyflogaeth, ar yr amod bod y swydd o fewn yr un math o weithlu ac mae'r math o wiriad a lefel y gwiriad yn berthnasol i'r gweithgaredd (3.5).

4.7 Bydd Estyn yn gwirio tystysgrifau unigolion sydd wedi tanysgrifio i Wasanaeth Diweddaru'r GDG ar yr amod bod copi llawn o dystysgrif y GDG yn cael ei ddarparu, ynghyd â chaniatâd ysgrifenedig yr unigolyn i gynnal gwiriad statws. Mae gwiriad statws yn galluogi Estyn i weld p'un a amlygwyd unrhyw wybodaeth berthnasol am yr unigolyn ers cyhoeddi'i dystysgrif ddiwethaf. Mae hyn yn lleihau'r angen am ofyn i unigolion wneud cais am Dystysgrifau niferus os byddant yn symud o un swydd i swydd arall o fewn yr un gweithlu neu pan fydd angen ailwiriad.

**Presenoldeb mewn digwyddiadau hyfforddiant cychwynnol a diweddaru**

4.9 Gall unigolion a wahoddir i hyfforddiant cychwynnol Estyn lle nad oes angen cwblhau rhan o'r cwrs asesedig mewn ysgol, lleoliad neu ddarparwr, fynychu heb ddal tystysgrif datgelu. Ond, rhaid iddynt anfon copi llawn o dystysgrif ddilys y GDG ar y lefel briodol er mwyn cael cadarnhad eu bod wedi llwyddo yn yr hyfforddiant a'u bod yn gymwys i gael eu defnyddio mewn arolygiad.

4.10 Os bydd yr hyfforddiant cychwynnol yn cynnwys gofyniad i gwblhau rhan o'r cwrs asesedig mewn ysgol, lleoliad neu ddarparwr, rhaid i unigolion anfon copi llawn o dystysgrif ddilys y GDG ar y lefel briodol er mwyn mynychu'r hyfforddiant.

4.11 Bydd angen i dystysgrif datgelu pob arolygydd a wahoddir i hyfforddiant diweddaru

fod yn ddilys ac ar y lefel briodol er mwyn mynychu. Rhaid i bob cyfranogwr ddarparu copi llawn o'r dystysgrif wreiddiol.

**Newid enw trwy briodas neu weithred newid enw**

4.12 Bydd angen i unigolyn a fydd yn ymgymryd â gwaith a reoleiddir ar gyfer Estyn am y tro cyntaf ar ôl newid ei enw trwy briodas neu weithred newid enw gael gwiriad newydd gan y GDG. Ni fydd Estyn yn derbyn tystysgrif a gyhoeddwyd o dan enw blaenorol.

## 5 Cynnwys

5.1 Mewn achosion lle mae datgeliad yn dangos cynnwys, bydd Estyn yn dilyn ei weithdrefn adolygu fewnol, gan ystyried Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974. Ystyrir achosion yn ofalus gan banel o reolwyr mewnol, gan ystyried trafodaethau blaenorol ac unrhyw wybodaeth ychwanegol a ddarparwyd gan yr unigolyn, er mwyn penderfynu p'un a ddylid tynnu cynnig hyfforddiant, cyflogaeth, penodiad neu ddefnydd yn ôl. Ni chaniateir i unrhyw unigolyn ar y Rhestr Waharddedig ymgymryd â 'gweithgaredd a reoleiddir'.

5.2 Mae gorfodaeth ar bob unigolyn sy'n ymgymryd â gwaith gyda neu ar ran Estyn i roi gwybod i Estyn am unrhyw newid mewn amgylchiadau a allai effeithio ar eu haddasrwydd parhaus i ymgymryd â'u rôl.

## 6 Sicrwydd a Chydymffurfiaeth

6.1 Ni fydd Estyn yn rhannu manylion datgeliad GDG personol unrhyw un o'i gyflogeion nac eraill sy'n ymgymryd â gwaith arolygu ar gyfer y sefydliad. Os bydd sefydliad a fydd yn cael ei arolygu gan Estyn yn gofyn am y wybodaeth hon, bydd Estyn yn rhoi cadarnhad ysgrifenedig fod y gwiriadau priodol wedi'u cwblhau ar gyfer pob unigolyn cyn iddynt gael eu defnyddio yn ystod yr arolygiad neu'r ymweliad.

6.2 Mae Estyn yn cydymffurfio'n llawn â Chod Ymarfer y GDG ynghylch ymdrin â, defnyddio, storio, cadw a gwaredu gwybodaeth datgeliadau yn gywir.
Hefyd, rydym yn cyflawni'n ymrwymiadau o dan y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol a deddfwriaeth berthnasol arall yn ymwneud ag ymdrin â, defnyddio, storio, cadw a gwaredu gwybodaeth Datgeliadau. Nid yw Estyn yn cadw copïau o dystysgrifau'r GDG am fwy na chwe mis ar ôl eu derbyn.

## Atodiad 1: Beth yw 'gweithgaredd a reoleiddir'

Mae'r diffiniad cyfreithiol, llawn o weithgaredd a reoleiddir wedi'i amlinellu yn Atodlen 4 Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006, fel y'i diwygiwyd (yn enwedig gan Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012). Mae gweithgaredd a reoleiddir yn eithrio trefniadau teuluol a threfniadau personol, anfasnachol.

Mae'r diffiniad o weithgaredd a reoleiddir yn gysylltiedig â phlant yn cynnwys:

(i) **gweithgareddau heb eu goruchwylio:** addysgu, hyfforddi, cyfarwyddo, gofalu am neu oruchwylio plant, neu roi cyngor/arweiniad ar les, neu yrru cerbyd ar gyfer plant yn unig; a

(ii) **gweithio i ystod gyfyngedig o sefydliadau:** ('lleoedd penodedig'), gyda chyfle am gysylltiad: er enghraifft, ysgolion, cartrefi plant, safleoedd gofal plant. Mae'n eithrio gwaith a wneir gan wirfoddolwyr dan oruchwyliaeth.

Mae gwaith o dan (i) neu (ii) yn weithgaredd a reoleiddir os caiff ei wneud yn rheolaidd yn unig. Ystyr 'rheolaidd' yw ei fod yn cael ei gyflawni gan yr un person yn rheolaidd (unwaith yr wythnos neu'n amlach), neu ar dri diwrnod neu fwy mewn cyfnod 30 diwrnod (neu dros nos, mewn ambell achos).

Mae'r Llywodraeth wedi darparu arweiniad statudol ar oruchwylio gweithgaredd, a fyddai'n weithgaredd a reoleiddir pe na fyddai'n cael ei oruchwylio.

(iii) gofal personol perthnasol, er enghraifft golchi neu wisgo; neu ofal iechyd gan neu wedi'i oruchwylio gan weithiwr proffesiynol; a

(iv) gofal plant cofrestredig, a gofalwyr maeth.

Yng Nghymru, ystyrir bod gwaith swyddfa Comisiynydd Plant Cymru ac arolygiaethau yng Nghymru (gan gynnwys Estyn) yn weithgaredd a reoleiddir.

**Beth sy'n cael ei ddosbarthu'n weithgaredd na reoleiddir wrth weithio gyda phlant?**

- Gweithgaredd sy'n cael ei oruchwylio ar lefel resymol
- Gofal iechyd nad yw'n cael ei roi gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol (na'i gyfarwyddo na'i oruchwylio ganddo)
- Cyngor cyfreithiol
- Triniaeth neu therapi
- Gweithgarwch gan berson dan gontract (neu sy'n gwirfoddoli) i ddarparu gwasanaethau achlysurol neu dros dro, (nid addysgu, hyfforddi na goruchwylio plant)
- Gwirfoddolwyr sy'n cael eu goruchwylio ar lefel resymol.